

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Hydref 2015	Clerc y Pwyllgor
Amser: 08.45	0300 200 6565
	SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Yn ei gyfarfod ar 1 Hydref 2015, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42, penderfynodd y Pwyllgor gwrdd yn breifat ar gyfer eitem 1

1 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016–17: Trafod yr adroddiad drafft

(08.45 – 09.00)

Papur 1 – Adroddiad drafft

Cyhoeddus

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.00)

3 Papurau i'w nodi

(09.00)

Llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(Tudalennau 1 – 4)

Nodyn o'r digwyddiad rhanddeiliaid ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ar 23 Medi 2015

(Tudalennau 5 – 8)



4 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2016–17: Sesiwn dystiolaeth 1

(09.00 – 10.00)

(Tudalennau 9 – 33)

Nick Bennet, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

David Meaden, Cyfrifydd Ariannol

Papur 2 – Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016–17

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(10.00)

Eitem 6

6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2016–17: Trafod y dystiolaeth

(10.00 – 10.15)

Egwyl

(10.15 – 10.30)

Cyhoeddus

7 Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 6

(10.30 – 11.15)

(Tudalennau 34 – 64)

Martin Warren, Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Jason Piper, Uwch Reolwr – Cyfraith Trethi a Busnes, Cymdeithas y Cyfrifwyr

Ardystiedig Siartredig (ACCA)

Papur 3 – Ymateb Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr i'r ymgynghoriad

Papur 4 – Ymateb Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig i'r ymgynghoriad

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

8 Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 7

(11.15 – 12.15)

(Tudalennau 65 – 74)

Kay Powell, Cyngorwr Polisi, Cymdeithas y Cyfreithwyr

Richard Beech, Partner, Glamorgan Law LLP

Papur 5 – Ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r ymgynghoriad

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(12.15)

Eitem 10

10 Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(12.15 – 12.30)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AM
Chair
Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

1 October 2015

Dear Jocelyn,

At the Finance Committee's Stage 1 scrutiny of the Tax Collection and Management (Wales) Bill, I committed to provide further information in relation to:

- 1) the circumstances where the section 14 direction-making power might be used, (including the rationale for providing that the power could not be exercised in relation to section 28 [accounts] and section 29 [tax statement], whilst there is no such restriction in relation to section 32 [accounting officer arrangements]); and,
- 2) the current arrangements provided for in the Bill for appointing members of the Welsh Revenue Authority.

Section 14: General directions

Tax collection is a function of government: the revenues collected will go into the Welsh Consolidated Fund to support public services in Wales. Welsh Ministers should rightly give strategic direction to the WRA on operational policy priorities (for example, the emphasis that the WRA should place on compliance and anti-avoidance).

The Assembly and Welsh public will, quite rightly, expect Welsh Ministers to be accountable for the strategic direction of the WRA. They should and will expect the WRA to be accountable for the efficient and effective collection of devolved taxes within the strategic framework set by Welsh Ministers. The Bill fully protects the confidentiality of taxpayer information and specific taxpayer situations from any involvement from Welsh Ministers, and ensures the operational independence of the WRA. However, tax revenue is a fundamentally important element of the Welsh Government budget, and Welsh Ministers should have the ability, if absolutely required, to ensure that the WRA is indeed collecting devolved taxes efficiently and effectively.

For that reason, the Bill provides for a direction-making power. I would envisage a direction being given only rarely and in unusual circumstances. This could be, for example, where there is a critical risk to the effective collection of Welsh tax receipts. It is difficult to provide a specific example, because the precise circumstances of tax collection difficulties in the future cannot be known.

In considering our approach and this provision we have looked carefully at the arrangements elsewhere between Ministers and HMRC and Revenue Scotland. Different approaches have been adopted:

- On the one hand, section 11 of the Commissioners for Revenue and Customs Act 2005 provides that in the exercise of their functions the Commissioners shall comply with any directions of a general nature given to them by the Treasury;
- On the other hand, however, the Revenue Scotland and Tax Powers Act 2014 provides that the Scottish Ministers must not give directions relating to, or otherwise seek to control, the exercise by Revenue Scotland of its functions (section 7). The Scottish Ministers may, however, give guidance to Revenue Scotland, to which Revenue Scotland must have regard (section 8).

Having considered both arrangements, my preference is to remain consistent with the current Treasury/HMRC model, although with the introduction of a greater degree of transparency (because Welsh Ministers will be under a duty to publish directions unless they consider that this would prejudice the effective exercise of WRA's functions). Whilst WRA should be operationally independent from Welsh Ministers in terms of how it deals with individual taxpayers, that has to be balanced against a need to ensure that the delivery of devolved tax operational policy is being carried out effectively. Section 14 allows this balance to be struck in a similar way to section 11 of the Commissioners for Revenue and Customs Act 2005.

What safeguards are in place?

The Bill throughout provides extensive safeguards for taxpayers to ensure that they are treated fairly, impartially and in accordance with the law. There are two main points to recognise:

Firstly, the power itself is limited to issuing directions of a general nature. Welsh Ministers will simply not be able to interfere in individual taxpayers' affairs. This is distinct from other bodies, for example Natural Resources Wales, where Ministers are able to issue directions of a specific nature.

Secondly, Welsh Ministers must publish any directions given unless they consider that publication would prejudice the effective exercise of WRA's functions. This goes further than the equivalent provision for HMRC, which does not require publication at all. This openness and possibility for public scrutiny will further ensure that the powers will not be inappropriately used. Such directions, issued publicly, would be subject to scrutiny by the Assembly. They would be subject to normal public law principles and could, potentially, be challenged in the courts.

It is also important to note that the rest of the Bill also contains significant and comprehensive safeguards for taxpayers. Any decisions by WRA will need to be reasonable and taken in accordance with the law. WRA's decisions will be subject to extensive judicial scrutiny. For example:

- Part 4, provides that when WRA uses its powers to require the public to provide information, or to access premises, it can only do so with the approval of the Tribunal. That is a very important safeguard which, in some respects, provides greater security for the public than is the case in Scotland and the UK;
- Part 8 of the bill confers extensive rights on the public to review or appeal against a wide range of WRA decisions, including those that determine tax liability or liability to penalties.

The Bill provides for comprehensive judicial oversight of WRA's functions which will guard against inappropriate Ministerial interference in individual taxpayers' affairs.

I would also refer to sections 16 and 19 of the Bill which make it a criminal offence for anybody working in WRA (or organisations acting under delegation) to disclose protected taxpayers' information, other than in tightly defined circumstances. Again, this is a significant safeguard against inappropriate interference in taxpayers' affairs.

The rationale for providing that directions cannot not be exercised in relation to sections 28 (accounts) and 29 (tax statement), but not 32 (accounting officer arrangements)

Sections 28 and 29 already provide for specific directions in a particular context. Therefore Section 14, for clarity, stipulates that the general direction-making power cannot *also* apply.

It was questioned whether section 32 should be outside the scope of the general direction making powers in section 14. Section 32 empowers Welsh Ministers to specify the responsibilities of WRA's accounting officer (who will be the Chief Executive), and such responsibilities may include the signing of the WRA's accounts, ensuring the propriety and regularity of the WRA's finances, and the economy, efficiency and effectiveness with which WRA resources are used. As this provision relates to the personal responsibilities of the Chief Executive, as accounting officer, rather than the functions of the WRA, the direction making-power cannot be applied: that is, it is already outside the scope of the general direction-making powers in section 14. As such, an exemption like that provided for sections 28 and 29 is not necessary.

Section 3: Membership arrangements for the Welsh Revenue Authority

The Bill provides that the Chair and other non-executive members of the WRA Board will be appointed by Welsh Ministers and that Welsh Ministers will appoint a Deputy Chair from among the non-executive members.

Welsh Ministers will also appoint the first Chief Executive but subsequent chief executives will be appointed by WRA, although Welsh Ministers will have a role in approving the terms of appointment. WRA are responsible for the appointment of its staff (who will be civil servants), although again Welsh Ministers have an approval role in relation to the terms and conditions of those appointments. WRA will nominate the executive members of the WRA Board.

The non-executive members will be public appointments made in accordance with the Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies (the Nolan principles). Amongst other things, the Nolan principles state that no reappointment or extension is made without a satisfactory performance appraisal, evidence of which must be made available to the Commissioner for Public Appointments on request; and no individual will serve in any one post for more than ten years.

The terms and conditions of non-executive members will be set by Welsh Ministers. Such appointments will be for the next Welsh Government to make, but I would not anticipate that the terms and conditions of appointments would depart significantly from the existing terms and conditions model used for non-executive appointments to the Welsh Government Board. These are generally for a fixed period of two years with the possibility of extension. The Seven Principles of Public Life would apply.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the name.

Jane Hutt AC / AM

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Y Pwyllgor Cyllid

Digwyddiad i Randdeiliaid 23 Medi 2015: Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Mae'r nodiadau hyn yn cyfleu'r adborth a gafwyd yn y digwyddiad i randdeiliaid, ond ni fwriedir iddynt fod yn rhestr gynhwysfawr o safbwyntiau pawb a oedd yn bresennol.

Diwylliant a rôl Awdurdod Cyllid Cymru (yr Awdurdod)

- Mae angen i'r Awdurdod ymwreiddio'r egwyddor bod pob busnes yng Nghymru yn cael triniaeth gyson;
- Mae Cyllid a Thollau EM yn anghyson o ran y ffordd y mae'n ymdrin â busnesau o wahanol faint (mae'n aml yn fwy llym gyda busnesau llai) a'i anallu i fynd ar drywydd busnesau amlwladol;
- Mae profiad busnesau bach o Gyllid a Thollau EM, a'r gwasanaeth a gânt, yn dibynnu'n llwyr ar y swyddog achos a neilltuir iddynt;
- Efallai y byddai'n well gan fusnesau ymdrin ag un corff ar gyfer yr holl drethi, gan gynnwys ardrethi busnes. Ai'r Awdurdod ddylai hwn fod?
- Dylai Siarter y Trethdalwyr fod yn dryloyw ac yn atebol, dylai fod dyhead i gyfathrebu â threthdalwyr (sy'n llai amlwg gyda Chyllid a Thollau EM). Dylai'r Awdurdod weithio gyda busnesau i ddatrys problemau pryd bynnag y bo modd;
- Dylai'r Awdurdod gael adain/adran yn cynnig cyngor a fyddai'n hygyrch i drethdalwyr;
- Mae angen cytuno ar y drefn o ymgysylltu â chwsmeriaid o fewn y contract gyda Chyllid a Thollau EM (os bydd swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu dirprwyo) neu mae perygl o etifeddu'r problemau presennol o ran gwasanaeth cwsmeriaid;
- Mae Cyllid a Thollau EM yn ymddangos yn rhy agos at Drysorlys EM, a dylai'r broses o ddatblygu polisi trethi yn Llywodraeth Cymru a'r broses o roi'r polisi hwnnw ar waith gan Awdurdod Cyllid Cymru gael eu gwahanu'n eglur. Bydd angen i Brif Weithredwr yr Awdurdod ddangos arweiniad cryf i sicrhau bod adran Cymru o Gyllid a Thollau EM (os bydd swyddogaethau'n cael eu dirprwyo iddi) yn mabwysiadu diwylliant gwahanol wrth gasglu trethi;
- Pryder y bydd Cyllid a Thollau EM yn pennu prosesau casglu heb fawr ddim gwybodaeth am Gymru, os o gwbl - angen cyfarwyddyd eglur gan Awdurdod Cyllid Cymru o ran sut y dylid rhedeg pethau, neu efallai bod angen swyddfa yng Nghymru?

- Dylai fod lle ar Fwrdd yr Awdurdod neu bwyllgor/is-bwyllgor i gynrychioli busnesau bach;
- Dylid ystyried presenoldeb aelodau'r Awdurdod yn ystod eu cyfnod yn y swydd, a rhoi gwybod am hyn yn y cyfrifon;
- Symrwydd yn allweddol. Er mwyn lleihau problemau trawsffiniol, ni all yr Awdurdod weithredu mewn modd rhy wahanol i drefniadau presennol Cyllid a Thollau EM, neu bydd hyn yn achosi dryswch/anawsterau i drethdalwyr ac unrhyw asiant sy'n gweithredu ar eu rhan;
- Mae angen iddo weithio i Gymru. Cyfle pwysig i adeiladu o'r newydd a chael pethau'n iawn y tro cyntaf - dysgu gwersi gan Gyllid a Thollau EM;
- Mae lefel y cyfrinachedd sy'n ofynnol y tu hwnt i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar hyn o bryd, ond mae Cyllid a Thollau EM wedi arfer â gweithio ar y lefel hon.

System drethi i Gymru

- Angen polisiâu treth yng Nghymru sy'n llwyddo'n well i sicrhau ymrwymiad;
- Manteision o ran ceisio symleiddio'r rheolau yng Nghymru;
- Dylai system drethi ar gyfer Cymru adlewyrchu'r system yn Lloegr er mwyn osgoi dryswch, oni bai bod manteision clir i wneud fel arall;
- Dylid cynnal asesiad effaith treth ar unrhyw drethi arfaethedig y cynigir eu creu;

Goruchwylio/Craffu ar Awdurdod Cyllid Cymru

- A yw'r Awdurdod yn dod o dan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynteu'r Ombwdsmon Seneddol?
- Mae Siarter y Trethdalwyr yn rhoi mesur i gymharu ag ef ond mae angen sefydlu llwybr clir i graffu ar yr Awdurdod hefyd. Pa fecanweithiau sydd ar waith i etholwyr wneud cwyn i'w Haelod Cynulliad? Sut mae Aelodau Cynulliad yn ymyrryd os oes problem fawr? A allai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod yn gyfrifol am graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru gan ei fod yn gorff hyd braich i Lywodraeth Cymru? Sut mae'r Alban wedi ymdrin â hyn?
- Dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad fod yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol yr Awdurdod (yn debyg i gyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyllid dros Swyddfa Archwilio Cymru);

Pwerau'r Awdurdod dros orfodi a chosbau

- Angen tîm gorfodi cryf o'r cychwyn cyntaf (fel ei fod wedi'i sefydlu'n barod i ymdrin â threthi datganoledig yn y dyfodol);
- Angen swyddogion lleol er mwyn sicrhau bod aelod o staff yr Awdurdod a all helpu ar gael i drethdalwyr;



- Cyfryngwyr/hwyluswyr annibynnol, trydydd parti i gynnig Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod fel haen ychwanegol cyn tribiwnlys (A ddylid cael system tribiwnlysoedd yng Nghymru?);
- Symleiddio ffurflenni a'u gwneud yn haws eu defnyddio;
- Dylid ystyried graddfa gosbau sy'n gysylltiedig â throsiant busnes (yn y Bil mae rhai cosbau wedi'u graddio, ond nid pob un - dylai fod yn gyson?);
- Angen deddfu ar gyfer efadu ac atal camddefnydd ond nid o reidrwydd ar gyfer osgoi (fel yn yr Alban);
- Cyn pennu lefelau'r cosbau, mae angen gweld tystiolaeth o faint o gosb sy'n effeithiol er mwyn annog pobl i beidio â chamddefnyddio'r system.
- Dylai fod yn ofynnol i Gyllid a Thollau EM anfon data a gwybodaeth am unrhyw achosion o efadu trethi eraill a all gael effaith ar drethi datganoledig Cymru.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd o newidiadau i system drethi Cymru

- Dylid cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyffredinol ynglŷn ag Awdurdod Cyllid Cymru a'i swyddogaethau, ac ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer y trethi bach;
- Nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r bwriad i gyflwyno trethi datganoledig ond, yn ymarferol, a oes angen i'r cyhoedd wybod am Awdurdod Cyllid Cymru os bydd Cyllid a Thollau EM yn cael ei ddefnyddio fel asiant casglu gan na fydd rhyw lawer yn newid i drethdalwyr mewn gwirionedd?
- Mae angen trosglwyddo'n llyfn wrth gyflwyno'r newidiadau;
- Cyrff proffesiynol yw'r rhai gorau i gyfathrebu ag ymarferwyr ynglŷn â'r newidiadau;
- Tryloywder. Mae gan drethdalwyr hawl i wybod pwy sy'n casglu eu harian ac ar beth y mae'n cael ei wario - a ellid hysbysebu hyn yn y Siarter?
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn ofalus ar y cychwyn a pharcio unrhyw syniadau newydd neu gamau arloesol, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael pethau'n iawn gan fod angen i'r cyhoedd fod â hyder yn y system;
- Canmoliaeth ynglŷn â chyflwyno deddfwriaeth fframwaith yn gyntaf.

Ffeilio trethi ar-lein a darparu cyngor

- Dylai ffeilio ar-lein fod yn opsiwn, gyda chefnogaeth ar gael;
- Mae'n cael ei dderbyn yn eang erbyn hyn mai digidol yw'r dewis cyntaf, ar yr amod bod dewis arall, heb gosb, ar gael;
- Mae cyswllt band eang yn broblem enfawr yng Nghymru;
- Osgoi cyngor tramor a sicrhau bod y cwmwl yn aros yn yr awdurdodaeth gywir os caiff ei ddefnyddio ar gyfer systemau ar-lein;



- Gallu cysylltu'n uniongyrchol â staff Cyllid a Thollau EM sy'n gwneud y gwaith casglu;
- Dylai unrhyw gytundeb gwasanaeth neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r asiant casglu gynnwys ymgysylltu â chwsmeriaid.





**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Amcangyfrif ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2016/17**

**Cyflwyniad i Gyfarfod Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7 Hydref 2015**

Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad i'r cyflwyniad amcangyfrifon	3
2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4
3. Llywodraethu Corfforaethol	5
4. Perfformiad Ariannol	6
5. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd	7
6. Cynllunio Strategol	10
7. Pensiynau Llywodraeth Leol	11
8. Dyfarniadau Cyflog	11
9. Pwysau Costau	12

Atodiadau

Atodiad A - Amcangyfrifon 2016/17	14
Atodiad B – Y Strwythur Sefydliadol er Mehefin 2015	15

1. Cyflwyniad i'r cyflwyniad amcangyfrifon hwn

- 1.1 Rwyf yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb hwn yn unol â pharagraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n nodi'r adnoddau sydd eu hangen o Gronfa Gyfunol Cymru i gyflawni fy swyddogaethau statudol ar wahân i'm cyflog, Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn, sy'n cael eu codi'n uniongyrchol ar wahân ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad ydynt, felly, yn rhan o'r amcangyfrif hwn. Er hynny, maent wedi'u cofnodi yn fy Nghyfrifon Blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn dangos cyfanswm costau rhedeg y swyddfa.
- 1.2 Dyma'r bumed waith y mae amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) wedi'u cyflwyno i'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried y cyflwyniad amcangyfrifon hwn. Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Mae OGCC hefyd yn dod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i drafod y Cyfrifon Blynyddol yn ôl gofynion y Pwyllgor hwnnw. Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn ymwneud yn benodol â'r materion hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.
- 1.3 Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn sefydlu swydd yr Ombwdsmon yn gorfforaeth undyn. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fecanwaith yr adroddiad blynyddol, a hefyd fel Swyddog Cyfrifyddu dros yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ymddiried i'r Ombwdsmon er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.
- 1.4 Y gwariant adnoddau net a geisir am 2016/17 yw £4,090,000, gyda gofyniad net am arian parod o £4,279,000. Mae hyn yn setliad gwastad ac yn cadw fy nghyllideb ar ddim mwy na 0.03% o Floc Cymru. Mae'n darparu ar gyfer dyfarniadau cyflog i staff a phwysau eraill oherwydd chwyddiant heblaw'r cynnydd yn y taliad blynyddol am y diffyg pensiwn a chynnydd o £12,000 mewn cyfalaf i'w fuddsoddi mewn technolegau newydd i wella effeithlonrwydd. Mae'r manylion yn y papur hwn yn ategu'r cyflwyniad amcangyfrifon hwn.

2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1 Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrff llywodraeth ac nid wyf yn codi tâl am y gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu.

2.2 Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

2.2.1 O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, at ei gilydd, yn rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Ymhlith y mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt y mae:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r gyrff y mae'n eu noddi.

Er 1 Tachwedd 2014, rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal cymdeithasol a lliniarol sydd wedi'u trefnu neu eu hariannu'n breifat.

2.2.2 Wrth ystyried cwynion, rwyf yn edrych i weld a yw pobl wedi'u trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael drwy ddiffyg ar ran y darparwr gwasanaeth. Ystyrir hefyd a yw'r darparwr gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisiâu ei hun. Os cadarnheir cwyn, byddaf yn argymhell ffordd briodol o wneud iawn. Y brif ffordd o wneud iawn a argymhellir yw rhoi'r achwynydd (neu'r un a gafodd gam) yn ôl yn y sefyllfa y buasai ynddi pe na byddai'r broblem wedi digwydd, os yw hynny'n bosibl. Yn ogystal â hyn, os byddaf yn gweld tystiolaeth o wendid systematig drwy'r ymchwiliad, fe wneir argymhellion i'w gwneud yn llai tebygol y bydd pobl eraill yn profi effaith debyg yn y dyfodol.

2.2.3 Mae fy Nhîm Cyngor ar Gwynion hefyd yn darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru sy'n wasanaeth annibynnol a diduedd a ddarperir dros y ffôn ac ar y we. Mae'n cynnig cyngor i aelodau o'r cyhoedd ynghylch sut i gwyno am wasanaeth cyhoeddus ac yn cyfeirio eu cwyn at y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth y maent am gwyno yn ei gylch, neu at yr ombwdsmon neu berson neu sefydliad annibynnol priodol sy'n delio â chwynion.

2.3 Cwynion Cod Ymddygiad

2.3.1 O dan ddarpariaethau Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a hefyd o dan Orchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parc cenedlaethol
- paneli'r heddlu a throsedd.

Mae gan yr holl awdurdodau hyn God Ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y mae aelodau i ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus.

3. Llywodraethu Corfforaethol

3.1 Oherwydd sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rhaid i'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd am y gweithgareddau a gyflawnir gan fy swyddfa aros gyda mi, fel Ombwdsmon.

3.2 Gan ystyried sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rwyf wedi sefydlu Panel Cynghori sy'n fy herio ac yn fy nghynorthwyo fel Ombwdsmon. Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, is-bwyllgor i'r Panel, sy'n darparu cymorth penodol i mi mewn perthynas â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae gwaith

y ddau wedi'i drafod yn fwy manwl yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynyddol ar gyfer 2014/15, a gyhoeddwyd yn Awst 2015. Fodd bynnag, manteisiaf ar y cyfle i ddatgan yma fy mod yn falch o nodi bod Mrs Sharon Warnes, a oedd gynt yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol/Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad yng Nghyngor Gwynedd, wedi'i phenodi i'r Panel Cyngori ar ôl ymarfer recriwtio agored (yn dilyn ymddiswyddiad Mr Ceri Stradling ar ddiwedd 2013/14). Mae Mrs Warnes hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.


4. Perfformiad Ariannol

- 4.1 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol a rheolaeth fewnol wedi'u hadolygu'n annibynnol gan Deloitte, sef archwilwyr mewnol OGCC. Penodwyd Deloitte i weithredu o 1 Ebrill 2011. Roedd Deloitte wedi cynllunio ei waith ar sail ei asesiad cyffredinol o anghenion. Mae ei adroddiadau wedi nodi bod y fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol y sefydliad yn foddhaol ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.
- 4.2 Yn Adroddiad Blynyddol Deloitte ar yr Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn 2014/15 nodwyd: "Based on the work we have undertaken during the year we are able to conclude that the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) has a basically sound system of internal control, which should provide **substantial assurance** regarding the achievement of PSOW's objectives." Roedd chwe argymhelliad newydd (dau â blaenoriaeth ganolog a phedwar â blaenoriaeth isel).
- 4.3 Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi datgan barn archwilio ddiamod am y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn yr un modd â phob blwyddyn flaenorol.
- 4.4 Mae OGCC wedi gweithio ar sail yr egwyddor y dylai gorbenion y swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Cyflawnwyd hyn bob amser ers sefydlu'r swyddfa o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae'n egwyddor sy'n deillio o arferion da yn y sector cyhoeddus. Ceir tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o wariant ar nodau ac amcanion fy Nghynllun Strategol sydd yn y Cyfrifon Blynyddol lle nodwyd bod y gorbenion yn 4.5% o gyfanswm y costau.

5. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

5.1 Mae OGCC wedi adrodd o'r blaen i'r Pwyllgor Cyllid ar y cydymdrech a gafwyd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol ar ddechrau'r broses trafod cwynion, a hefyd ar symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r trefniadau hyn wedi bod yn hanfodol ers hynny wrth ddelio â'r nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion a gafodd fy swyddfa.

5.2 Mae'r duedd gynyddol honno wedi parhau, fel y mae'r graff isod yn dangos:



5.3 Mae'n drawiadol iawn bod nifer yr ymholiadau a chwynion a gafwyd dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2010/11 a 2014/15 wedi cynyddu mwy na dwywaith tra oedd y gwariant, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, wedi gostwng 2%, fel y mae'r tabl isod yn dangos.

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	% newid
Ymholiadau	1,127	1,866	2,906	3,234	3,470	+208
Cwynion am Gyrrff Cyhoeddus	1,425	1,605	1,790	1,932	2,065	+45
Cwynion Cod Ymddygiad	277	412	291	226	231	-17
Gwariant, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant	£3,566k	£3,292k	£3,581k	£3,419k	£3,515k	-2

5.4 Arloesi

5.4.1 Er fy mod yn cydnabod bod gwaith rhagorol wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol i symleiddio prosesau trafod cwynion y swyddfa, roeddwn yn ymwybodol iawn bod y tueddiadau'n parhau ar i fyny. Mae'n werth nodi mai ym mis Gorffennaf 2014 y cafwyd y nifer mwyaf o ymholiadau a'r nifer mwyaf o gwynion yn y swyddfa ers ei sefydlu yn Ebrill 2006. Felly cychwynnais brosiect arloesi a oedd yn cynnwys yr holl staff i bennu meysydd lle gellid cael rhagor o arbedion drwy effeithlonrwydd. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, cytunwyd ar fwy na 30 o bwyntiau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â newidiadau mewnol ac yn canolbwyntio ar gadarnhau a chyflymu'r broses o droi'n 'swyddfa ddi-bapur'. Rydym wedi dod i'r casgliad y bydd y dull hwn o weithredu yn ein galluogi i ddod yn fwy effeithlon yn yr agweddau ymarferol ar ddelio â dogfennau gwaith achos. Fodd bynnag, mae goblygiadau wedi codi hefyd i gyrrff sydd o fewn fy awdurdodaeth, gan fy mod bellach yn gofyn am gofnodion ar ffurf electronig yn unig (ac, mewn perthynas â hynny, rwyf yn caniatáu llai o amser i gyrrff o fewn fy awdurdodaeth ar gyfer darparu'r cofnodion yr wyf yn gofyn amdanynt).

5.5 Hyrwyddo Gwelliannau

5.5.1 Mewn perthynas â'r pryder a deimlaf ynghylch y cynnydd parhaus yn nifer y cwynion, rwyf wedi ystyried beth a allwn ei wneud i hyrwyddo gwelliannau wrth drafod cwynion mewn cyrrff sydd o fewn fy awdurdodaeth, a hefyd sut y gallwn gyfrannu'n fwy effeithiol at wella'r ffordd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, cyflwynais rolau swydd newydd a gwahanol yn ystod Mehefin 2015. Yn benodol, adolygwyd nifer o'r swyddi presennol ac, o ganlyniad, cyflwynwyd swyddi Rheolwyr Ymchwilio Cynorthwyol a Swyddogion Ymchwilio a Gwella. Er y

byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig drwy ymchwilio yn y dyfodol, bydd y dyletswyddau gwella yn y ddwy rôl hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn cyrff penodol sydd o fewn fy awdurdodaeth yn ogystal ag arwain ar feysydd thematig sy'n parhau i effeithio ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus.

5.6 Cyngorwyr proffesiynol

5.6.1 Rwyf yn cael cymorth gan gyngorwyr clinigol sy'n arbenigo mewn gwahanol agweddau ar y proffesiynau iechyd wrth ystyried achosion iechyd. O'r blaen, roedd y swyddfa'n dibynnu'n llwyr ar gyngorwyr a oedd yn cael eu cymryd ymlaen drwy drefniant â Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OPHSO), drwy ailgodi ffioedd ar fy swyddfa. Mae'r Pwyllgor wedi'i hysbysu o'r blaen am benderfyniad OGCC i gymryd ymlaen nifer o gyngorwyr clinigol yn uniongyrchol a fydd yn dod i'r swyddfa yn ôl yr angen. Rydym yn parhau'n fodlon iawn ar yr effaith gadarnhaol a gafwyd ar wasanaeth OGCC o ganlyniad i hyn. Mae hyn wedi ein galluogi i adolygu achosion yn fwy prydlon wrth ddechrau ystyried cwynion, ac wedi hwyluso rhyngweithio mwy pwrpasol ac effeithiol â chynghorwyr arbenigol eraill yn OPHSO yn ystod ymchwiliadau. Mae hyn wedi lleihau costau fy swyddfa gan fod llai o angen i anfon ffeiliau achos i OPHSO ym Manceinion neu Lundain. Fodd bynnag, er ein bod yn ceisio lleihau'r defnydd o'r trefniant â OPHSO i'r graddau mwyaf posibl, rydym yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar y gwasanaeth hwn. Ar ben hynny, gan fod nifer y cwynion iechyd sy'n dod i'm swyddfa yn parhau i gynyddu, mae'n debygol hefyd y bydd angen i mi wneud mwy o geisiadau am gyngor, gan arwain at gost fwy byth i'm swyddfa.

5.6.2 Rwyf hefyd yn cymryd ymlaen nifer o gyngorwyr proffesiynol eraill ym meysydd gofal cymdeithasol a chynllunio drwy drefniant uniongyrchol. Mae'r rhain yn profi eu gwerth hefyd, yn enwedig drwy roi'r gallu i benderfynu'n gynnar cyn cam ymchwilio'r broses gwyno. Rwyf yn ymwybodol ei bod yn debygol iawn y bydd angen i mi wneud mwy o ddefnydd o'r cynghorwyr sy'n darparu cyngor proffesiynol ar faterion gofal cymdeithasol gan y bydd angen i'r swyddfa ystyried cwynion ychwanegol o'r math hwn o ganlyniad i ddiwygio'r weithdrefn gwyno statudol ar gyfer gofal cymdeithasol ac ehangu fy awdurdodaeth yn y maes hwn.

6. Cynllunio Strategol

6.1 Y prif nodau strategol ar gyfer y swyddfa hyd 2015/16 oedd:

1. Cynnig gwasanaeth lle mae gofal rhagorol am gwsmeriaid yn flaenllaw yn ein holl waith, lle'r ydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth ac yn gwneud ein gorau i'w wneud yn hygyrch i bawb ac yn hawdd ei ddefnyddio.
2. Darparu gwasanaeth trafod cwynion o ansawdd uchel, sy'n ystyried ac yn penderfynu ar gwynion mewn ffordd drwyadl ond cymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir.
3. Defnyddio'r wybodaeth a gawn o'n hymchwiliadau i gyfrannu at wella'r darparu ar wasanaethau cyhoeddus ac i gyfrannu at lunio polisi cyhoeddus.
4. Parhau i ddadansoddi a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein prosesau busnes a'n swyddogaethau cymorth, er mwyn dangos rhagor o dryloywder a sicrhau'r defnydd gorau o'r arian cyhoeddus sydd wedi'i ymddiried i ni.

6.2 Rwyf yn adolygu'r nodau hyn ar hyn o bryd gyda'm staff a rhanddeiliaid eraill, er mwyn datblygu cynllun strategol newydd i fynd â ni ymlaen i 2018/19.

6.3 Y brif ystyriaeth i ni fydd y posibilrwydd o gyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn ystod 2016, yn dilyn ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad i bwerau'r Ombwdsmon yn ystod 2015. Wrth gwrs, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ymwybodol iawn mai'r cyntaf o'i argymhellion ar ôl ei ymchwiliad oedd y canlynol:

“Mae'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylo gan y dystiolaeth y dylai pwerau'r Ombwdsmon gael eu diwygio. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai bil gael ei gyflwyno yn y Cynulliad i ymestyn rôl yr Ombwdsmon.”

6.4 Rwyf yn tynnu sylw'r Pwyllgor Cyllid at y ffaith mai fy mwriad yw, os cyflwynir Deddf newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, y byddaf yn rheoli'r cyfnod pontio ar gyfer y flwyddyn honno o fewn o gofyniad net am arian parod o £4,279,000.

7. Pensiynau Llywodraeth Leol

- 7.1 O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae'r rhan fwyaf o'm staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mewn cyflwyniadau blaenorol rwyf wedi nodi bod hawl gan nifer o aelodau staff a oedd wedi'u cyflogi cynt gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, pan gafodd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei sefydlu yn 2006, i aros yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ers hynny, mae'r cynllun, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd, wedi parhau mewn diffyg. Mae hyn wedi digwydd am fod y cynnydd mewn disgwyliad oes wedi effeithio ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn ac am fod ei asedau wedi lleihau oherwydd gostyngiad yng ngwerth ei fuddsoddiadau a chyfraddau elw is.
- 7.2 Nodwyd yr atebolrwydd am y diffyg ar ôl adolygiad actwaraidd tair blynedd a chafodd ei gynnwys yn yr ail amcangyfrif atodol ar gyfer 2011/12 fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Er hynny, mae'r taliadau blynyddol yn cael eu trin fel rhai o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol. Mae'r taliadau hyn yn cynyddu £13,000 bob blwyddyn a byddant yn parhau tan 2017/18.
- 7.3 Roedd sefyllfa ariannu'r Cynllun wedi dirywio er 31 Mawrth 2010, yn bennaf oherwydd amrywiadau mewn amodau ariannol (sydd wedi effeithio ar yr elw gwirioneddol o fuddsoddi er 31 Mawrth 2010 yn ogystal â'r elw disgwylidig yn y dyfodol). Mae hyn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan godiadau cyflog llai na'r disgwyl a chyfraniadau diffyg a dalwyd er 31 Mawrth 2010. Mae'r prisiad actwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2015 yn cydnabod bod y diffyg wedi gostwng £230,000 o £720,000 ar 31 Mawrth 2014 i £490,000. Rhagwelir y bydd y diffyg yn cael ei ddileu dros y tair blwyddyn ariannol nesaf drwy'r taliadau ychwanegol a wneir i'r Cynllun yn 7.2 uchod.

8. Dyfarniadau cyflog

- 8.1 Mae cyflogau'r swyddfa wedi'u seilio ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr a rhoddir codiadau yn ôl setliadau a gytunir yn y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Cytunwyd ar godiad cyflog o 2% yn 2014/15 ar gyfer y ddwy flynedd rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016.

9. Pwysau Costau

